

# Cas-mael

Teithiau Byr



**GRADDFA:** 0 200 400 m

**PELLTER/HYD:** 1.7 milltir (2.7 km) 1 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Bws gwasanaeth 343 Abergwaun, Cas-mael, Hwlfordd (Dydd Gwener yn unig)


**CYMERIAD:** Caeau a da byw, 0.6 milltir (1.0 km) cerdded isffordd

## COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

## ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — — — Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



# Cas-mael

## Teithiau Byr

**Hyd:** 1 awr

**Pellter:** 1.7 milltir (2.7 km)

**Cludiant cyhoeddus:** Bws gwasanaeth 343 Abergwaun, Cas-mael, Hwlfordd (Dydd Gwener yn unig).

**Cyfeirnod map:** SN008297

Mae'r daith gerdded fechan hon ar gyrion pentre Cas-mael yng ngogledd Sir Benfro. Mae nifer o adeiladau diddorol yn y pentre, gan gynnwys 2 gapel bychan, eglwys, y Drovers Arms, a'r bythynnod rhestredig, Tŷ Newydd a'r White Hart. Roedd y bardd Cymraeg, Waldo Williams, yn brifathro ar yr ysgol yn ystod yr ail ryfel byd, a cyfansoddodd un o'i gerddi mwyaf adnabyddus 'Ar Weun Casmael' am y darn o dir comin sy'n amgylchynu'r pentre. Mae cofeb i fardd arall, Evan Rees, bachgen lleol, yn sefyll ar sgwâr y pentre.

Wrth ichi ddilyn y daith, byddwch yn croesi'r hen reilffordd rhwng Maenclochog a Rosebush ac Abergwaun. Adeiladwyd yn y 1890au, roedd yn ddolen gyswllt bwysig i'r cymunedau gwledig hyn yn y dyddiau cyn y car a'r bws. Daeth y gwasanaeth i deithwyr i ben ym 1937, a chauwyd y lein yn derfynol ym 1949.

Mae Mynydd Casfuwch o'ch blaen, ac wrth droed y mynydd hwn mae plwyfi Casfuwch a Morfil. Yn anffodus, ni allodd pentre Casfuwch wrthsefyll ddyfodiad y Normaniaid, a orfododd yr holl deuluoedd a drigai wrth droed y mynydd i symud ymhellach i'r wlad. Mae'r gair 'Morfil' yn hanu o air Lladin a ddefnyddiwyd gan y Normaniaid am bentre marw.

Cyn bo hir, byddwch yn pasio hen chwarel lechi. Agorodd y chwarel cyn 1840, ac fe'i gweithiwyd efallai hyd at yr ugeinfed ganrif. Yr unig beth sydd ar ôl nawr yw tomen mawr o rwbel. Mae'r tir ar ddwy ochr y llwybr wrth ichi ddynesu at yr hen reilffordd, er nad yw'n edrych yn arbennig iawn, yn un o'r llefydd prin hynny lle y gallwch weld y fursen ddeheuol. Rhywogaeth prin iawn ym Mhrydain yw'r fursen ddeheuol, ond mae Sir Benfro yn gadarnle iddi, gyda niferoedd yn dal i ffynnu yma ac ar lethrau gogleddol bryniau'r Preseli.